# Y Polisi Gamblo

## Deddf Gamblo 2005

2025 - 2028

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys

**Rhan A: Datganiad Polisi Gamblo ……..…………………….. 3**
1: Yr Amcanion Trwyddedu …………………………………… 3
2: Rhagarweiniad ……………………………………………….. 3
3: Datganiad …………………………………………………… 4
4: Awdurdodau Sydd â Chyfrifoldeb ………………………….. 5
5: Y Rhai Yr Effeithir Arnynt …………………………………….. 6
6: Cyfnewid Gwybodaeth ……………………………………….. 7
7: Gorfodi ……………………………………………………… 8
8: Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu ..………………….. 8

**Rhan B: Trwyddedau Safle ..……………………………………. 9**
9: Egwyddorion Cyffredinol ………………………………………. 9
10: Canolfannau Gamblo i Oedolion ……………………… 20
11: Canolfannau Adloniant Teulu (wedi eu Trwyddedu) ……… 20
12: Casinos …………………………………………………….... 21
13: Bingo ……………………………………………………….. 21
14: Safleoedd betio ……………………………………………. 22
15: Traciau …………………………………………………….. 23
16: Ffeiriau Teithiol ……………………………………………. 25
17: Datganiadau Amodol ……………………………………….. 26
18: Adolygiadau …………………………………………………... 27
19: Asesiadau Risg ……………………………………………… 28

**Rhan C: Hawlenni/Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro a Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol ……………………….. 29**
20: Hawlenni peiriannau gamblo mewn Canolfannau Adloniant Teulu heb eu trwyddedu ………………………………………………..  29
21: Hawlenni peiriannau gamblo mewn safleoedd sydd â thrwydded (i werthu/cyflenwi alcohol) ……………………………………….. 31
22: Hawlenni Gamblo am Wobrau ……………………………….. 32
23: Hawlenni Gamblo mewn Clybiau a Hawlenni ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Clybiau ………………………………………….. 33
24: Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro ……………………….. 35

25: Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol …………………….. 36
26: Loterïau Cymdeithasau Bychain ……………………………. 36

**Atodiadau**

Atodiad A ……………………………………………………….. 37
Atodiad B ……………………………………………………….. 38
Atodiad C ……………………………………………………….. 41

# RHAN A

## 1. Yr Amcanion Trwyddedu

1.1 Wrth gyflawni'r rhan fwyaf o'u swyddogaethau dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu a nodir yn adran 1 o'r Ddeddf. Mae'r amcanion trwyddedu fel a ganlyn:

- **Atal gamblo rhag arwain at drosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gynnal troseddu;**
- **Sicrhau bod gamblo'n cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored;**
- **Amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag iddynt gael eu niweidio neu i eraill gam-fanteisio arnynt yn sgil gamblo.**

1.2 Dylid nodi'r hyn y mae'r Comisiwn Gamblo wedi ei ddatgan: "Mae'r gofyn mewn perthynas â phlant yn benodol i'w hamddiffyn rhag iddynt gael eu niweidio neu i eraill gam-fanteisio arnynt yn sgil gamblo".

1.3 Yn unol ag Adran 153, o ran gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau safle a hysbysiadau am ddefnydd dros dro, mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y dylai anelu at ganiatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo cyn belled â'i fod yn ystyried ei fod:

- **yn unol ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;**
- **yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;**
- **yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu, a'i fod**
- **yn unol â datganiad yr awdurdod o bolisi trwyddedu.**

## 2. Rhagarweiniad

2.1 Sir Gaerfyrddin yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru o safbwynt daearyddol, gyda phoblogaeth o 190,083 yn 2023. Yn ardal wledig yn bennaf, mae gan Sir Gaerfyrddin sylfaen amaethyddol gref gyda 'chadwyn' o drefi marchnad allweddol sy'n diwallu anghenion cymunedau yn yr ardaloedd gwledig hynny. De-ddwyrain Sir Gaerfyrddin yw'r rhan o'r sir sydd â'r boblogaeth fwyaf, ac un o'i nodweddion yw hen gymunedau diwydiannol clòs. Mae map o'r sir, yn dangos y wardiau unigol, i'w weld yn Atodiad C.

2.2 Ar hyn o bryd mae 18 o Safleoedd Gamblo yn y Sir, sef 11 Safle Betio, 3 Safle Bingo, 2 Ganolfan Hapchwarae i Oedolion, 1 Ganolfan Adloniant Teulu, ac 1 Drwydded Betio ar gyfer Trac.

2.3 Yn ôl Deddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu gyhoeddi datganiad o'r egwyddorion y maent yn bwriadu eu defnyddio wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae'n rhaid cyhoeddi'r datganiad hwn o leiaf bob tair blynedd. Mae'n rhaid adolygu'r datganiad o bryd i'w gilydd hefyd ac ymgynghori eto ar

unrhyw rannau diwygiedig. Yna bydd yn rhaid ailgyhoeddi'r datganiad. Y ddogfen hon yw datganiad o egwyddorion Cyngor Sir Caerfyrddin yn unol â'r Ddeddf.

2.4 Lluniwyd y polisi hwn o ganlyniad i ymarfer ymgynghori. Cysylltwyd â nifer fawr o gyrff a oedd yn cynnwys y canlynol:-

a) Yr Heddlu
b) Y Comisiwn Gamblo
c) Yr Awdurdodau Eraill sydd â Chyfrifoldeb
d) Deiliaid Trwyddedau a'u cynrychiolwyr
e) Deiliaid Hawlenni a'u cynrychiolwyr
f) Busnesau Gamblo lleol a'u cynrychiolwyr
g) Trigolion lleol a'u cynrychiolwyr

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i bob ymateb a dderbyniwyd.

2.5 Dylid nodi na fydd y datganiad polisi hwn yn gwrthwneud hawl unrhyw berson i wneud cais, cyflwyno sylwadau ar gais neu wneud cais am adolygu trwydded, gan y bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant ac yn ôl gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

2.6 Nodir bod angen i'r rheiny sy'n ymgeisio am drwyddedau safle gael trwyddedau gweithredu oddi wrth y Comisiwn Gamblo a bod ganddynt gyfrifoldebau i'r Comisiwn o ganlyniad i hynny.

## 3. Datganiad

3.1 Wrth gynhyrchu'r ddogfen bolisi hon, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005 a'r Arweiniad a roddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

### 3.2 Rhestr Termau

O fewn y Datganiad Polisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel y nodir isod:

| | |
|---|---|
| Amcanion Trwyddedu: | Fel y'u diffiniwyd yn adran 1.1 uchod |
| Cyngor: | Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn allan yma fel "y Cyngor") |
| Sir | Yr ardal yn Sir Gaerfyrddin a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ac y cyfeirir ati yn y map atodol (gweler Atodiad C) |
| Trwyddedau: | Fel y diffiniwyd yn rhan B. |
| Ceisiadau: | Ceisiadau am drwyddedau a hawlenni fel y diffiniwyd yn rhan B a C. |

| | |
|---|---|
| Awdurdod Trwyddedu | Awdurdod Trwyddedu yn ôl ystyr Adran 2 o Ddeddf Gamblo 2005 (y cyfeirir ato o hyn allan yma fel "yr Awdurdod") |
| Hysbysiadau: | Rhoi gwybod ynghylch Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol |
| Deddf: | Deddf Gamblo 2005 |
| Rheoliadau: | Rheoliadau a luniwyd o dan Ddeddf Gamblo 2005 |
| Safle: | Unrhyw le |
| Côd Ymarfer: | Unrhyw gôd ymarfer perthnasol o dan adran 24 o Ddeddf Gamblo 2005 |
| Amod Gorfodol: | Amod penodedig y mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid ei osod ar drwydded |
| Amod Diofyn: | Amod penodedig y mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid ei osod ar drwydded, oni bai bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei eithrio |

## 4. Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb

Y canlynol yw'r awdurdodau sydd â chyfrifoldeb yng nghyswllt trwyddedau safleoedd o dan y Ddeddf:-

1. Yr Awdurdod Trwyddedu y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfangwbl neu'n rhannol o fewn ei ardal ("Cyngor Sir Caerfyrddin");
2. Y Comisiwn Gamblo;
3. Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys;
4. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru;
5. Pennaeth Cynllunio, Cyngor Sir Caerfyrddin;
6. Rheolwr y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus, Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Caerfyrddin;
7. Yr Adran Addysg a Phlant, Cyngor Sir Caerfyrddin;
8. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
9. Yng nghyswllt cwch, awdurdod mordwyo, Asiantaeth yr Amgylchedd, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain a'r Ysgrifennydd Gwladol;
10. Unrhyw berson arall a ragnodir mewn rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

4.1 Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu nodi'r egwyddorion y bydd yn eu defnyddio wrth weithredu ei bwerau dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi'n ysgrifenedig gorff sy'n gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch amddiffyn plant rhag niwed.

4.2 Y canlynol yw'r egwyddorion:

a) yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cynnwys holl ardal yr awdurdod trwyddedu; a'r
b) angen i'r corff fod yn atebol i bobl a etholwyd yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp â diddordeb personol.

4.3 Am y rhesymau hyn, mae'r awdurdod hwn yn dynodi Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin at y diben hwn.

4.4 Mae manylion cyswllt yr holl Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb dan Ddeddf Gamblo 2005 ar gael yn Atodiad B i'r ddogfen hon a hefyd ar wefan y Cyngor sef: **www.sirgar.gov.uk**

## 5. Y rhai yr effeithir arnynt

5.1 Gall y rheiny yr effeithir arnynt gyflwyno sylwadau ar geisiadau trwyddedu, neu wneud cais am adolygu trwydded bresennol. Diffinnir 'y rheiny yr effeithir arnynt' fel a ganlyn yn Neddf Gamblo 2005:

"At ddiben y Rhan hon, mae person yn un yr effeithir arno/arni mewn perthynas â chais am drwydded safle neu'n ymwneud â hynny os yw'r person, ym marn yr awdurdod trwyddedu sy'n cyhoeddi'r drwydded neu y gwneir y cais iddo:
a) yn byw yn ddigon agos i'r safle i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig,
b) yn meddu ar fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig, neu
c) yn cynrychioli pobl sy'n bodloni paragraff (a) neu (b)".

5.2 Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu nodi'r egwyddorion y bydd yn eu defnyddio wrth weithredu ei bwerau dan Ddeddf Gamblo 2005 i bennu a yw person yn un yr effeithir arno/arni neu beidio. Y canlynol yw'r egwyddorion:

- Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei haeddiant. Ni fydd yr awdurdod hwn yn arfer rheol gadarn wrth wneud penderfyniadau. Bydd yn ystyried enghreifftiau o ystyriaethau a ddarparwyd yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, yn 8.9 ac 8.17. Bydd hefyd yn ystyried Arweiniad y Comisiwn Gamblo y dylid dehongli "yn meddu ar fuddiannau busnes" yn y ffordd ehangaf sy'n bosib, gan gynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.

- Gall y rhai yr effeithir arnynt fod yn bobl a etholir yn ddemocrataidd, megis cynghorwyr ac Aelodau Seneddol.   Ni fydd yn rhaid cael tystiolaeth benodol o gais i gynrychioli un yr effeithir arno/arni cyn belled ag y bo'r cynghorydd/AS yn cynrychioli ward sy'n debygol o gael ei heffeithio.  Ystyrir bod cynghorau cymuned sy'n debygol o gael eu heffeithio yn rhai yr effeithir arnynt yn yr un modd.  Fel arall, fodd bynnag ac yn gyffredinol, bydd yn rhaid i'r awdurdod hwn gael tystiolaeth ysgrifenedig fod person/corff (e.e. eiriolwr / perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw yn ddigon agos i'r safle i'r gweithgareddau awdurdodedig fod yn debygol o effeithio arno/arni a/neu sy'n meddu ar fuddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt.  Bydd llythyr gan un o'r bobl hyn, yn gofyn am y gynrychiolaeth, yn ddigonol.

- Os bydd unigolion am gysylltu â chynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli eu barn, dylid sicrhau nad yw'r cynghorwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n ymdrin â'r cais am drwydded.  Os bydd unrhyw amheuon, dylid cysylltu â'r: **Adain Drwyddedu, Adran Cymunedau, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE.**

5.3 Dylai unrhyw Gynghorydd Cymuned neu Gynghorydd Sir y gofynnir iddo/iddi gynrychioli rhai yr effeithir arnynt ofalu ei fod/bod yn cydymffurfio â'r côd ymddygiad a gwneud cais am ganiatâd gan y pwyllgor safonau, os yw hynny'n briodol.

## 6. Cyfnewid gwybodaeth

6.1 Yn eu datganiadau, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu gynnwys yr egwyddorion i'w defnyddio gan yr awdurdod wrth gyflawni'r swyddogaethau dan adrannau 29 a 30 y Ddeddf o ran cyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo, a'r swyddogaethau dan adran 350 y Ddeddf o ran cyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r bobl eraill a restrir yn Atodlen 6 y Ddeddf.

6.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn arfer yr egwyddor y bydd yn gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 wrth iddo gyfnewid gwybodaeth, sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd yn mynd yn groes i Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018.  Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ystyried unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch y mater hwn pan gaiff hwnnw ei gyhoeddi, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan y pwerau a ddarparwyd yn Neddf Gamblo 2005.

6.3 Os sefydlir unrhyw brotocolau ynghylch cyfnewid gwybodaeth â chyrff eraill, byddant yn cael eu darparu.

## 7. Gorfodi

7.1 Yn ôl y rheoliadau, dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu nodi’r egwyddorion i’w defnyddio gan yr awdurdod wrth gyflawni'r swyddogaethau dan Ran 15 y Ddeddf o ran archwilio safleoedd; a’r pwerau dan adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol o ran y troseddau a nodwyd.

7.2 Egwyddorion yr Awdurdod Trwyddedu hwn yw y bydd yn dilyn Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, ac y bydd yn ymdrechu i fod:

- Yn gymesur: dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd angen yn unig; dylai’r dulliau datrys fod yn briodol i'r risg sy’n bodoli, ac mae’n rhaid nodi'r costau a'u cadw i'r isafswm posib;
- Yn atebol: mae’n rhaid i reoleiddwyr fedru cyfiawnhau penderfyniadau a bod yn atebol i'r cyhoedd;
- Yn gyson: mae’n rhaid i reolau a safonau fynd law yn llaw a chael eu gweithredu’n deg;
- Yn dryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, a chadw rheoliadau’n syml ac yn hawdd eu deall; ac
- Yn targedu: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgil-effeithiau.

7.3 Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ymdrechu i osgoi dyblygu gweithdrefnau eraill er rheoleiddio cyn belled ag sy'n bosib.

7.4 Gofalu y cydymffurfir â’r trwyddedau safle a chaniatâd arall y mae’n eu hawdurdodi fydd prif rôl gorfodi a chydymffurfio yr awdurdod trwyddedu hwn o ran Deddf Gamblo 2005. Y Comisiwn Gamblo fydd y corff gorfodi ar gyfer y trwyddedau gweithredu a'r trwyddedau personol. Mae’n werth nodi hefyd nad yr awdurdod trwyddedu fydd yn ymdrin â phryderon ynghylch cynhyrchu, cyflenwi nac atgyweirio peiriannau gamblo; byddant yn cael eu cyfeirio at y Comisiwn Gamblo

7.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn sicrhau fod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau ynghylch gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio (BRE) wrth ystyried swyddogaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

7.6 Gan gofio’r egwyddor o dryloywder, bydd cytundebau ysgrifenedig/protocolau gorfodi/cydymffurfio yr awdurdod trwyddedu hwn ar gael os gwneir cais amdanynt i’r adain drwyddedu: 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE. Bydd ein methodoleg risg ar gael hefyd os gofynnir amdani.

## 8. Swyddogaethau’r Awdurdod Trwyddedu

8.1 Dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu wneud y canlynol:

- Bod yn gyfrifol am drwyddedu safleoedd lle bydd gamblo'n digwydd drwy gyhoeddi Trwyddedau Safle; ar gyfer safleoedd Bingo, safleoedd Betio, Traciau, Canolfannau Gamblo i Oedolion a Chanolfannau Adloniant i Deuluoedd;
- Cyhoeddi  Datganiadau Amodol;
- Rheoleiddio clybigu aelodau a sefydliadau lles glowyr sydd am gyflawni gweithgareddau gamblo penodol drwy gyhoeddi Hawlenni ar gyfer Gamblo mewn Clybiau a/neu Hawlenni ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Clybiau;
- Cyhoeddi Hawlenni ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Clybiau, ar gyfer Clybiau Masnachol;
- Cyhoeddi hawlenni i ddefnyddio peiriannau Gamblo penodol lle mentrir llai o arian mewn Canolfannau Adloniant Teulu heb eu trwyddedu;
- Derbyn hysbysiadau gan safleoedd sydd â thrwydded i werthu/cyflenwi alcohol (dan Ddeddf Trwyddedu 2003) i ddefnyddio un neu ddau beiriant Gamblo;
- Cyhoeddi Hawlenni Peiriannau Gamblo i Safleoedd Trwyddedig ar gyfer safleoedd sydd â thrwydded, dan Ddeddf Trwyddedu 2003, i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed yn y safle trwyddedig, lle mae mwy na dau beiriant;
- Cofrestru lotrïau cymdeithasau bach sydd o dan drothwyau a bennwyd;
- Cyhoeddi Hawlenni Gamblo am Wobrau;
- Derbyn a chymeradwyo Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol;
- Darparu gwybodaeth ar gyfer y Comisiwn Gamblo ynghylch manylion am drwyddedau a gyhoeddwyd (gweler yr adran uchod ar 'gyfnewid gwybodaeth);
- Cynnal cofrestrau o'r hawlenni a'r trwyddedau a gyhoeddwyd dan y swyddogaethau hyn.

8.2 Dylid nodi na fydd awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud o gwbl â thrwyddedu gamblo o bell.  Cyfrifoldeb y Comisiwn Gamblo fydd hyn drwy gyfrwng trwyddedau gweithredu.

# RHAN B
# TRWYDDEDAU SAFLE – YSTYRIED CEISIADAU

## 9. Egwyddorion Cyffredinol

9.1 Bydd trwyddedau safle'n amodol ar y gofynion a bennir yn Neddf Gamblo 2005 a rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a chyffredinol penodol y ceir manylion amdanynt yn y rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedu hepgor amodau cyffredinol ac ychwanegu eraill lle credir bod hynny'n briodol.

9.2 Bydd gofyn bod pob ymgeisydd am Drwydded Safle yn nodi sut bydd yn rhoi sylw i'r amcanion trwyddedu, fel y'u nodwyd yn adran 1.1 uchod, a pha fesurau mae'n bwriadu eu defnyddio i sicrhau y cydymffurfir â hwy.

9.3 **Gwneud penderfyniadau**

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau safle, mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y dylai anelu at ganiatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo cyn belled â'i fod o'r farn ei fod:

- yn unol ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu;  ac
- yn unol â datganiad yr awdurdod o bolisi trwyddedu.

9.4 Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, cydnabyddir nad yw "gwrthwynebiad moesol i gamblo yn rheswm digonol dros wrthod ceisiadau am drwyddedau safle" a hefyd nad yw galw nas diwallir yn faen prawf i awdurdod trwyddedu.

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn nodi arweiniad y Comisiwn Gamblo ynghylch sicrhau mai betio yw'r prif weithgaredd ar safle trwyddedig. Gellir darparu peiriannau gamblo ar safle trwyddedig dim ond pan fo digon o gyfleusterau betio ar gael hefyd. Bydd angen i weithredwyr ddangos y bydd betio'n parhau i fod yn brif weithgaredd ar y safle pan fyddant yn gwneud cais am amrywio'r drwydded.

Wrth benderfynu ar hyn bydd yr awdurdod yn ystyried y chwe dangosydd sy'n arwyndd bod betio'n brif weithgaredd.

- Darparu cynnyrch craidd sefydledig (gan gynnwys lluniau digwyddiadau byw ac amrediad betio)
- Darparu gwybodaeth ynghylch cynnyrch a digwyddiadau
- Hyrwyddo cynnyrch a chyfleoedd gamblo
- Yr union ddefnydd o gyfleusterau betio
- Maint y safle
- Darparu cyfleusterau betio

9.5  **Diffiniad o "safle"** - Yn y Ddeddf, mae'r diffiniad o "safle" yn cynnwys "unrhyw le". Mae Adran 152 felly yn atal mwy nag un drwydded safle rhag cael ei gweithredu mewn perthynas ag unrhyw le. Fodd bynnag, mae'n bosib i un adeilad fod â mwy nag un drwydded safle, ar yr amod eu bod ar gyfer rhannau gwahanol o'r adeilad a bod modd ystyried yn rhesymol bod rhannau gwahanol yr adeilad yn safleoedd gwahanol.  Mae'r ymagwedd hon wedi'i mabwysiadu i ganiatáu i safleoedd mawr â nifer o unedau, fel parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa, gael trwyddedau safle ar wahân, lle bo mesurau diogelu priodol yn eu lle. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi sylw arbennig i hyn os oes materion ynghylch israniadau adeilad neu lain unigol a dylid sicrhau bod amodau gorfodol sy'n ymwneud â mynediad rhwng safleoedd yn cael eu dilyn.

9.6 Yn A7.6 o'r pumed argraffiad o'i Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, mae'r Comisiwn Gamblo yn nodi: "Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i adeilad / llain unigol fod yn destun cais am drwydded, er enghraifft, 32 Stryd Fawr. Ond, nid yw hynny'n golygu na all 32 Stryd Fawr fod yn destun trwyddedau safle ar wahân ar gyfer yr islawr a'r llawr daear, os ydynt wedi'u trefnu mewn ffordd

dderbyniol. Bydd pennu a ellir yn briodol ystyried bod rhannau gwahanol o adeilad yn safleoedd ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'n amlwg y bydd lleoliad y safle yn ystyriaeth bwysig ac mae addasrwydd y rhaniad yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu. A7.7 Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn o'r farn y gellir yn briodol ystyried bod rhannau o adeilad sydd wedi eu gwahanu'n artiffisial neu dros dro, er enghraifft â rhaffau neu raniadau symudol, yn safleoedd ar wahân. Os yw safle yn rhan o leoliad ehangach, dylai awdurdod trwyddedu ofyn am gael cynllun o'r lleoliad, a dylid nodi'r safle fel uned ar wahân ar y cynllun hwnnw".

9.7 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn sylwi'n benodol ar Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu sy'n nodi: y dylai awdurdodau trwyddedu fod yn arbennig o ofalus wrth ystyried ceisiadau am fwy nag un drwydded ar gyfer un adeilad a'r rheiny sy'n berthnasol i ran benodol o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (nid gamblo). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn ceisio amddiffyn plant rhag iddynt gael eu niweidio yn sgil gamblo. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos at gamblo. Felly, dylai safleoedd fod wedi'u trefnu fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, yn cael mynediad ato yn ddamweiniol neu'n ei weld yn agos lle maent wedi'u gwahardd rhag cymryd rhan.
- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd rhannau'r adeilad sydd ag un neu ragor o drwyddedau safle fod ar wahân ac yn amlwg er mwyn gofalu y cedwir y rhaniad rhwng y safleoedd gwahanol, ac er mwyn i bobl beidio â 'chrwydro' i ran gamblo. Yn y cyd-destun hwn, dylai fod yn bosib cael mynediad i'r safle fel arfer heb fynd drwy safle trwyddedig arall neu safle â hawlen.
- Dylai cwsmeriaid fod yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar y drwydded safle.

9.8 Mae'r Arweiniad hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a allai gynnwys y canlynol:

- A yw'r safleoedd wedi'u cofrestru ar wahân ar gyfer ardrethi busnes?
- A berchenogir y safle drws nesaf gan yr un person neu rywun arall?
- A ellir cael mynediad i bob un o'r safleoedd oddi ar y stryd neu dramwyfa gyhoeddus?
- A ellir cael mynediad i'r safle o unrhyw safle gamblo arall yn unig?

Bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

9.9 **Mae darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle wedi'u dangos isod:**

7.23:

**Casinos**

- Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r safle fod oddi ar stryd (fel y diffinnir ym mharagraff 7.21 o'r Arweiniad)

- Ni ddylai unrhyw fynedfa i gasino fod o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
- Ni ddylai unrhyw gwsmer fod yn gallu cael mynediad i gasino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall sy'n meddu ar drwydded safle gamblo

**Canolfan Gamblo i Oedolion**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer fod yn gallu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o unrhyw safle gamblo trwyddedig arall

**Siopau Betio**

- Mae'n rhaid i'r mynediad fod oddi ar stryd (fel y nodir ym mharagraff 7.20 o'r Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu) neu o safle arall â thrwydded safle betio
- Ni ddylai fod mynediad uniongyrchol o siop fetio i safle arall a ddefnyddir i fanwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mewn gwirionedd, ni ellir cael mynedfa i siop fetio o siop o unrhyw fath oni bai fod y siop honno ei hun yn safle betio trwyddedig.

**Traciau**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer fod yn gallu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
  - gasino
  - canolfan gamblo i oedolion

**Safleoedd Bingo**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer fod yn gallu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
  - gasino
  - canolfan gamblo i oedolion
  - safle betio, ac eithrio trac

**Canolfan Adloniant Teulu**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer fod yn gallu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:
  - gasino
  - canolfan gamblo i oedolion
  - safle betio, ac eithrio trac

Mae Rhan 7 o Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys arweiniad pellach ynghylch y mater hwn y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

9.10 **Safleoedd sy'n "barod ar gyfer gamblo"**

Mae'r Arweiniad yn nodi na ddylid cyhoeddi trwydded i ddefnyddio safle ar gyfer Gamblo ond mewn perthynas â safleoedd y gall yr awdurdod trwyddedu fod yn fodlon y byddant yn barod i'w defnyddio ar gyfer Gamblo yn y dyfodol gweddol agos, yn gyson â maint y gwaith adeiladu neu'r newidiadau sydd eu hangen cyn y gellir defnyddio'r safle.

9.11 Os nad yw'r gwaith o adeiladu safle wedi'i gwblhau eto, neu os oes angen ei newid, neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'w feddiannu eto, yna dylid gwneud cais am ddatganiad amodol yn lle hynny.

9.12 Wrth benderfynu a ellir caniatáu trwydded safle lle mae gwaith adeiladu neu newid heb ei wneud ar safle, bydd yr awdurdod hwn yn penderfynu ynghylch ceisiadau yn ôl eu haeddiant, gan ddefnyddio proses ystyried ddau gam:-

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu i'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer Gamblo
- Yn ail, a ellir rhoi amodau priodol yn eu lle i ddarparu ar gyfer sefyllfa lle nad yw'r safle eto yn y cyflwr y dylai fod cyn bod Gamblo yn digwydd.

9.13 Dylai ymgeiswyr nodi bod hawl gan yr awdurdod hwn i benderfynu ei bod yn briodol caniatáu trwydded yn ddibynnol ar amodau, ond nid yw dan orfodaeth i ganiatáu trwydded o'r fath.

9.14 Gellir cael enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau lle gellir caniatáu trwydded o'r fath ym mharagraffau 7.58-7.65 o'r Arweiniad.

9.15 **Lleoliad** – Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol na ellir ystyried materion sy'n ymwneud â galw o ran lleoliad safleoedd ond bod modd ystyried ffactorau sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol, bydd yr awdurdod hwn yn rhoi sylw penodol i amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag iddynt gael eu niweidio neu i eraill gamfanteisio arnynt, yn sgil Gamblo, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn. Nid yw hyn yn atal unrhyw geisiadau rhag cael eu gwneud a bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei haeddiant.

9.16 Wrth benderfynu ar gais am ganiatáu Trwydded Safle neu adolygu Trwydded Safle, rhoddir sylw i agosrwydd y safle i ysgolion, canolfannau ieuenctid, canolfannau i oedolion ddiamddiffyn, neu ardaloedd preswyl lle ceir tystiolaeth yn cysylltu agosrwydd y cyfryw â'r safle Gamblo. Bydd agosrwydd y safle y rhoddir sylw iddo yn amrywio yn ôl maint a chwmpas y safle Gamblo dan sylw. Fodd bynnag, penderfynir ar bob achos ar sail ei rinweddau ei hun, a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o Gamblo y bwriedir ei gynnig ar y safle. Felly, os gall Ymgeisydd ddangos yn effeithiol sut gallai oresgyn pryderon ynghylch yr amcanion trwyddedu, cymerir hynny i ystyriaeth.

9.17 **Dyblygu gweithdrefnau eraill er rheoleiddio**

Wrth benderfynu ar gais, ni ddylai'r Awdurdod roi ystyriaeth i faterion nad ydynt yn berthnasol o dan y Ddeddf, megis a yw'n debygol y bydd yr ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu ganiatâd rheoli adeiladu.

Gall ymgeisydd wneud cais am "ddatganiad dros dro" os nad yw'r adeilad wedi'i gwblhau neu os nad oes ganddo'r hawl i'w feddiannu eto. Fodd bynnag, mae cais o'r fath yn broses gwbl ar wahân i roi caniatâd neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu.

9.18 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ceisio osgoi dyblygu unrhyw systemau statudol / rheoleiddio eraill pan fydd yn bosib, gan gynnwys ym maes cynllunio. Wrth drafod cais, ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a yw safle yn debygol o

gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu neu gydymffurfio ag unrhyw ganiatâd neu gymeradwyaeth bresennol. Serch hynny, fe fydd yn gwrando ar unrhyw bryderon ynghylch amodau nad oes modd i ddeiliaid trwydded eu bodloni oherwydd cyfyngiadau ar gynllunio, os bydd sefyllfa o’r fath yn codi, ac yn ystyried y pryderon hynny'n ofalus.

9.19 Wrth ymdrin â chais am drwydded safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a oes yn rhaid i’r adeiladau hynny gydymffurfio â’r caniatadau cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Nid ystyrir risgiau tân neu iechyd a diogelwch, oherwydd yr ymdrinnir â’r materion hyn dan reoliadau rheolaeth gynllunio, adeiladu a rheoliadau eraill ac ni ddylent fod yn rhan o’r ystyriaethau ar gyfer y drwydded safle.

9.20 **Amcanion trwyddedu** – Mae’n rhaid i’r trwyddedau safle a ganiateir fod yn rhesymol gyson â’r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae’r awdurdod trwyddedu hwn wedi ystyried Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol ac, isod, gwneir rhai sylwadau.

1. **Atal Gamblo rhag arwain at drosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gynnal troseddu –**

   Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y bydd y Comisiwn Gamblo yn chwarae rhan flaenllaw o ran atal Gamblo rhag arwain at droseddu.

   Fodd bynnag, mae Arweiniad y Comisiwn Gamblo yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliadau arfaethedig safleoedd Gamblo wrth ystyried yr amcan trwyddedu hwn.

   Felly, pan wyddys bod nifer fawr o droseddau cyfundrefnus yn digwydd mewn ardal, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a yw’n briodol cael safleoedd Gamblo yno ai peidio ac a fyddai amodau, fel darparu goruchwylwyr drysau, yn briodol. Mae’r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol o’r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau megis a oedd angen cymorth yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i’r rheiny a allai ei weld, er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt. Ni ellir ymdrin â niwsans drwy ddarpariaethau’r Ddeddf Gamblo.

   Wrth baratoi ceisiadau am drwydded, cynghorir ymgeiswyr i ystyried y canlynol:-

1. Cynllun a phatrwm y safle;
2. Lleoliad, i’r graddau mae’r lleoliad yn gysylltiedig â’r amcanion trwyddedu;
3. Yr hyfforddiant a roddir i’r staff o ran mesurau atal troseddu sy’n briodol ar gyfer y safle dan sylw;
4. Y nodweddion diogelu ffisegol sydd wedi’u gosod ar y safle. Gall hyn gynnwys materion megis ble lleolir y cofrestrau arian neu safon y teledu cylch cyfyng (CCTV) sydd wedi’i osod;
5. Pan fo safleoedd yn destun cyfyngiadau oed, y gweithdrefnau sydd yn eu lle i gynnal profion gwirio oed;

6. Pa mor debygol yw unrhyw drais neu broblem anhrefn cyhoeddus neu blismona os caniateir y drwydded.
7. Yng nghyswllt atal anhrefn, mae gan yr Awdurdod y gallu (o dan A169 o'r Ddeddf) i orfodi amodau'r drwydded.
8. Ymwybyddiaeth y staff o'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian a darparu gweithdrefn glir ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw weithgarwch amheus i uwch-reolwyr.

**2. Sicrhau bod Gamblo'n cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored –**

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi datgan na fyddai'n disgwyl yn gyffredinol i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau bod Gamblo'n cael ei weithredu mewn ffordd deg ac agored, gan yr eir i'r afael â hyn drwy gyfrwng trwyddedau gweithredu a thrwyddedau personol.  O ran traciau, fodd bynnag, mae swyddogaeth helaethach, a eglurir yn fanylach yn yr adran 'traciau' isod – tudalen 14).

3. **Amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag iddynt gael eu niweidio neu i eraill gamfanteisio arnynt yn sgil Gamblo –**

a) Mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi nodi bod Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol yn datgan bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn Gamblo (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion Gamblo'n cael eu hanelu at blant neu'n arbennig o ddeniadol i blant).  Gan hynny, fel yr awgrymwyd yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried a oes angen mesurau penodol mewn safleoedd penodol mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn.  Gall mesurau priodol gynnwys goruchwylio mynedfeydd/peiriannau, gwahanu rhannau o'r un safle, hyfforddi staff, a chynllun a llunwedd (patrwm) y safle.

b) Mae'r awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn gwybod am Godau Ymarfer y Comisiwn Gamblo ynghylch yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â safleoedd penodol.

**c) Plant a phobl ddiamddiffyn**

1. Plant

Mae'r Ddeddf Gamblo a'r arweiniad a roddwyd gan y comisiwn yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer amddiffyn plant rhag niwed Gamblo. Dylai deiliaid trwydded sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â'r darpariaethau hyn.

2. Prawfbrynu

Mae'r Awdurdod yn cefnogi safiad y Comisiwn Gamblo, sy'n annog gweithredwyr i brofi cadernid eu polisïau a'u gweithdrefnau gwirio oedran er mwyn atal plant rhag cael mynediad i gyfleusterau Gamblo. Bydd disgwyl i bob safle roi gwybod i'r Prif Awdurdod (lle bo cytundebau o'r fath yn eu lle gyda gweithredwyr penodol) yn ysgrifenedig ynghylch y dull gweithredu y maent wedi'i fabwysiadu, a rhannu canlyniadau'r cyfryw brofion gyda'r Awdurdod yn

flynyddol, gyda golwg ar weithio gyda'r Awdurdod i wella cadernid y gweithdrefnau sy'n atal plant rhag defnyddio cyfleusterau Gamblo.

Disgwylir i'r rheiny nad oes ganddynt gytundebau prif awdurdod o'r fath rannu canlyniadau prawfbrynu o'r fath â'r Awdurdod Trwyddedu hwn.

**d) Pobl Ddiamddiffyn**

1) O ran y term "pobl ddiamddiffyn", nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo yn ceisio cynnig diffiniad, ond mae'n nodi y bydd "at ddibenion rheoleiddio, yn rhagdybio bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n Gamblo fwy nag y maent eisiau ei wneud;  pobl sy'n Gamblo y tu hwnt i'w modd; a phobl na allant o reidrwydd wneud penderfyniadau doeth na chytbwys ynghylch Gamblo oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau."  Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn fesul achos.

2) Mae'r Awdurdod yn disgwyl i bob safle Gamblo sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynghylch y Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol (FESS), yn sgil y dystiolaeth bod cysylltiad rhwng Gamblo a chamfanteisio ariannol. Mae gwybodaeth bellach ynghylch y cynllun ar gael o'r Adain Drwyddedu.

**e) Hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol.**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am geisiadau am drwyddedau safleoedd Gamblo.

**f) Canllaw Arfer Da**

Caiff gweithredwyr safleoedd, awdurdodau cyfrifol a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau eu cynghori'n gryf i ystyried canllawiau arfer gorau wrth asesu effaith rhoi trwydded. Dylid cyfeirio'n benodol at yr adroddiadau canlynol:-

- Fframwaith Llywodraeth Cymru ar Fynd i'r Afael ag Economi'r Nos
- Y Berthynas rhwng Alcohol ac Ymddygiadau Gamblo – Alcohol Concern Cymru (2015)
- Gamblo â'n Hiechyd – Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2016/17

**g) Hyfforddiant**

Caiff gweithredwyr safleoedd eu cynghori i ddarparu hyfforddiant staff sy'n cynnwys hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol, yn enwedig hyfforddiant ar bolisïau lleol ar gyfer ymdrin â nodwyddau a ddefnyddiwyd a'r risg o gael firws a gludir yn y gwaed er mwyn diogelu staff. Gallai'r hyfforddiant hefyd gynnwys ymwybyddiaeth o'r mathau o gyffuriau newydd a datblygol y cyfeirir atynt fel "Sylweddau Seicoweithredol Newydd" (y cyfeirid atynt yn flaenorol fel "Cyffuriau Penfeddwol Cyfreithlon" er mwyn arfogi staff yn well i ymdrin â'u defnydd ar safleoedd.
Gall gwasanaethau lleol ddarparu cyrsiau byr, pwrpasol am ddim i safleoedd trwyddedig a chaiff gweithredwyr eu cynghori'n gryf i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael manylion am sut i gael mynediad i'r cyrsiau hyn.
Caiff gweithredwyr safleoedd hefyd eu cynghori'n gryf i hyrwyddo gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer mynd i'r afael â materion yn ymwneud â

gamblo, cyffuriau ac alcohol. Gellir gofyn i'r awdurdod trwyddedu am fanylion ynglŷn â chael gafael ar ddeunydd hyrwyddol perthnasol.

**h) Diogelu**

1. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn bod diogelu Plant a phobl Ddiamddiffyn yn flaenoriaeth.
2. Mae Adain Drwyddedu Sir Gaerfyrddin, ar y cyd ag asiantaethau, gan gynnwys y Comisiwn Gamblo a Heddlu Dyfed-Powys, yn ystyried gweithio mewn partneriaeth â deiliaid trwydded, eu staff a sefydliadau eraill i sicrhau bod safleoedd sy'n cynnig gweithgareddau gamblo yn gweithredu mewn modd cyfrifol a chan roi sylw priodol i blant a phobl ddiamddiffyn.
3. Fel rhan o'r fenter hon mae'r grŵp wedi cynhyrchu deunydd gwybodaeth a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu, gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a darparu pwyntiau cyswllt lleol i gael cyngor a chyfarwyddyd yn ogystal ag adrodd am bryderon.
4. Mae'r awdurdod yn argymell bod angen i fusnesau sy'n cynnig gweithgareddau Gamblo sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol mewn perthynas â materion diogelu er mwyn ymateb yn briodol ac yn gyflym pan fydd materion yn codi. Mae'r cyngor hwn yr un mor bwysig i weithredwyr safleoedd sy'n cynnig peiriannau Gamblo ochr yn ochr â gwerthu neu gyflenwi alcohol.
5. Mae'r awdurdod yn argymell yn gryf bod ymgeiswyr am awdurdodiadau yn cynnwys gwybodaeth am eu trefniadau ar gyfer hyfforddiant diogelu staff fel rhan o ddogfennau'r cais.
6. Caiff busnesau Gamblo eu cynghori i gysylltu â'r adain drwyddedu neu ymweld â thudalennau gwe Gamblo'r Awdurdod i gael copïau o'r dogfennau.

**i) Bet – Watch**

Mae'r Awdurdod yn annog gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth, a bydd yn eu cynorthwyo i wneud hyn, i drafod materion yn ymwneud â Gamblwyr problemus a nodir. Bydd hyn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion â swyddogion trwyddedu.

**Amodau**

9.21 Bydd unrhyw amodau a gysylltir wrth drwyddedau'n gymesur a byddant:

- yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn gyfleuster Gamblo addas;
- yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r safle a'r math o drwydded y gwnaed cais amdani;
- yn gysylltiedig â maint a math yr adeilad, a hynny mewn ffordd deg a rhesymol; ac
- yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

9.22 Bydd penderfyniadau ar amodau unigol yn cael eu gwneud fesul achos er y bydd nifer o fesurau y bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried eu defnyddio os tybir bod eu hangen, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer rhannau i oedolion yn unig ac ati. Gwneir sylwadau penodol yn hyn o beth dan rai o'r mathau o drwyddedau a restrir isod. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl i ymgeiswyr am drwyddedau gynnig eu hawgrymiadau eu hunain ynghylch sut y gellir bodloni'r amcanion trwyddedu yn effeithiol.

9.23 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried hefyd fesurau penodol y gallai fod eu hangen ar gyfer adeilad sydd â mwy nag un drwydded safle.

9.24 Gallai mesurau gynnwys goruchwylio mynedfeydd; cadw Gamblo i ffwrdd o ardaloedd a ddefnyddir gan blant nad ydynt yn ymwneud â Gamblo; a goruchwylio peiriannau Gamblo mewn adeiladau penodol a ddefnyddir ar gyfer Gamblo nad ydynt ar gyfer oedolion yn unig, er mwyn cynnwys yr amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo.

9.25 Bydd yr awdurdod hwn hefyd yn sicrhau bod y mesurau canlynol ar waith mewn safleoedd y caiff plant fynediad iddynt lle cynigir peiriannau categori C neu uwch:

- bydd yr holl beiriannau o'r fath mewn rhan o'r safle sy'n cael ei wahanu o weddill y safle gan rwystr pendant sy'n effeithiol o ran atal mynediad heblaw am drwy fynedfa ddynodedig;
- oedolion yn unig fydd yn cael mynediad i'r rhan lle mae'r peiriannau hyn;
- goruchwylir mynediad i'r rhan lle mae'r peiriannau;
- trefnir y rhan lle mae'r peiriannau hyn fel bod modd i staff neu ddeiliad y drwydded gadw llygad arni; ac
- wrth fynedfa rhan o'r fath, a'r tu mewn i'r rhan, bydd arwyddion amlwg yn nodi y gwaherddir pobl dan 18 oed o'r rhan honno.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd, gan gynnwys adeiladau unigol sydd â mwy nag un drwydded safle.

9.26 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y gall traciau fod ag un neu ragor o drwyddedau safle, ar yr amod bod pob trwydded yn gysylltiedig â rhan benodol o'r trac. Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle yn eglur a bod plant yn cael eu gwahardd o rannau na chânt fynd iddynt, lle ceir Gamblo.

9.27 Nodir bod amodau na all yr awdurdod trwyddedu eu cysylltu wrth drwyddedau safle, sef:

- unrhyw amod ar y drwydded safle sy'n ei gwneud yn amhosib cydymffurfio ag amod trwydded weithredu;
- amodau sy'n gysylltiedig â chategorïau, niferoedd neu ddulliau gweithredu peiriannau Gamblo;
- amodau sy'n nodi ei bod yn ofynnol bod yn aelod o glwb neu gorff (mae Deddf Gamblo 2005 yn dileu'n benodol rheidrwydd aelodaeth ar gyfer

clybiau bingo a chasinos, ac mae’r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei ailgyflwyno); ac
- amodau sy’n gysylltiedig â mentro arian, ffïoedd, enillion neu wobrau.

9.28 **Goruchwylwyr Drysau** – Yn ei Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Lleol, mae’r Comisiwn Gamblo'n cynghori y gall awdurdodau trwyddedu fynnu, os ydynt yn pryderu y gall safle arwain at anhrefn neu y gall rhai heb ganiatâd (er enghraifft plant a phobl ifanc) geisio cael mynediad iddo, bod goruchwylwyr drysau yn rheoli’r mynedfeydd i’r safle ac mae hawl ganddynt bennu hynny yn y drwydded safle.

Lle penderfynir bod goruchwylio mynedfeydd/peiriannu yn briodol mewn achosion penodol bydd angen ystyried a oes angen i’r goruchwylwyr hyn gael eu trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) neu beidio. Ni chymerir yn ganiataol fod angen iddynt gael trwydded, gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd yn amrywio (yn unol â Rhan 3 o’r Arweiniad)

9.29 Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn dewis peidio â chyflogi goruchwylwyr drysau sydd ar gofrestr yr SIA, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ymgeisydd ddisgrifio yn ei gais sut mae'n bwriadu: -

a) Cwblhau Archwiliad o Gofnodion Troseddol pob unigolyn
b) Darparu manylion am feini prawf eu heuogfarnau troseddol
c) Egluro'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i ganfod pwy yw'r unigolion hyn pan fyddant yn gweithio fel goruchwylwyr drysau.

d) Dangos faint o ddynion a faint o ferched sy’n gwneud y gwaith.
e) Darparu manylion am yr hyfforddiant priodol ar gyfer y swyddogaeth.
f) Darparu cofrestr waith sy'n dangos yr amserau a'r dyddiadau pryd y byddant ar ddyletswydd. (Mae'r un peth yn wir am oruchwylwyr sydd ar gofrestr yr SIA).

9.30 **Systemau Teledu Cylch Cyfyng -** Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn cydnabod gwerth systemau Teledu Cylch Cyfyng o ran atal troseddau ac anhrefn. Cynghorir ymgeiswyr i ddilyn yr arweiniad sydd ar gael gan Heddlu Dyfed-Powys ynghylch safonau a manylion unrhyw system y bwriedir ei defnyddio, i ofalu ei bod yn addas ar gyfer y safle.

## 10. Canolfannau Gamblo i Oedolion

10.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yn benodol yr angen i amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag i Gamblo eu niweidio neu iddo gamfanteisio arnynt a bydd yn disgwyl i’r ymgeisydd fodloni’r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau, er enghraifft, na fydd gan bobl dan 18 oed fynediad i’r adeilad.

10.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau priodol / amodau'r drwydded gynnwys materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr eir i'r afael ag unrhyw risgiau i blant a phobl ddiamddiffyn yn sgil Gamblo a nodwyd mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn;
- Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV);
- Goruchwylio mynedfeydd / rhannau lle ceir peiriannau;
- Gwahanu rhannau yn bendant;
- Lleoliad y fynedfa;
- Hysbysiadau / arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunan-eithrio;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gynhwysfawr; mae'n rhoi enghreifftiau o'r math o fesurau yn unig.

## 11. Canolfannau Adloniant Teulu (wedi eu trwyddedu):

11.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yn benodol yr angen i amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag i Gamblo eu niweidio neu iddo gamfanteisio arnynt a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod, er enghraifft, y bydd mesurau digonol i sicrhau na fydd gan bobl dan 18 oed fynediad i leoliad y peiriannau Gamblo i oedolion yn unig. Caiff ymgeiswyr eu cynghori'n gryf i gyfeirio at y wybodaeth ddiogelu a gyflwynir ar dudalen 14 o'r ddogfen bolisi hon.

11.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai'r mesurau priodol / amodau'r drwydded gynnwys materion fel:

- Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV);
- Goruchwylio mynedfeydd / rhannau lle ceir peiriannau;
- Gwahanu rhannau yn bendant;
- Lleoliad y fynedfa;
- Hysbysiadau / arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunan-eithrio;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare;
- Mesurau / hyfforddiant staff ar sut i ddelio â phlant ysgol yr amheuir eu bod yn chwarae triwant yn y safle.

- Sut yr eir i'r afael ag unrhyw risgiau i blant a phobl ddiamddiffyn yn sgil Gamblo a nodwyd mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gynhwysfawr; mae'n rhoi enghreifftiau o'r math o fesurau yn unig.

11.3 Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn cyfeirio at wefan y Comisiwn i edrych ar unrhyw amodau sy'n berthnasol i drwyddedau gweithredu sy'n ymdrin â'r ffordd y dylid dynodi'r rhan sy'n cynnwys y peiriannau categori C. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw amodau gorfodol neu gyffredinol a gysylltwyd wrth y trwyddedau safle hyn ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

## 12. Casinos

12.1 Ar hyn o bryd nid oes casino yn y sir.

12.2 Nid oes penderfyniad i wahardd casinos yn y sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu'r sefyllfa hon a gallai, rywbryd yn y dyfodol, benderfynu peidio â chaniatáu casinos.

12.3 Os bydd y Cyngor yn dewis gwneud penderfyniad o'r fath, bydd hwn yn benderfyniad gan y Cyngor Llawn, ar ôl trafodaeth yn seiliedig ar y ffeithiau, a rhoddir y rhesymau dros wneud y penderfyniad. Nid oes hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

## 13. Safleoedd Bingo

13.1 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn nodi bod Arweiniad y Comisiwn Gamblo yn datgan:

> 18.5 Bydd angen i awdurdodau trwyddedu eu bodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw safle bingo y maent yn cyhoeddi trwydded safle ar ei gyfer. Gall gweithredwr ddewis amrywio trwydded i eithrio rhan o'r safle a fu gynt yn drwyddedig, ac yna gwneud cais am drwydded safle newydd, neu drwyddedau newydd lluosog, gyda'r nod o greu safleoedd ar wahân yn y mannau hynny. Byddai hynny i bob pwrpas yn darparu safleoedd trwyddedig lluosog oddi mewn i un adeilad neu ar un safle. Cyn cyflwyno trwyddedau ychwanegol ar gyfer safleoedd bingo, mae angen i awdurdodau trwyddedu ystyried a oes modd chwarae bingo ym mhob un o'r safleoedd newydd hynny.

13.2 Mae'r awdurdod hwn hefyd yn nodi'r Arweiniad ym mharagraff 18.9 ynghylch yr amgylchiadau anghyffredin lle gellir caniatáu rhannu safle a oedd eisoes yn bodoli yn ddau safle cyfagos, ac yn benodol na ellir caniatáu i 16 o beiriannau Gamblo categori B3 gael eu lleoli mewn un o'r safleoedd canlynìadol, gan y

byddai hynny’n mynd dros ben yr hawl i gael peiriannau Gamblo ar gyfer y safle hwnnw.

13.3 At hynny, mae paragraff 18.7 yn nodi y caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i safleoedd bingo; fodd bynnag, ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os oes peiriannau categori B neu C ar gael i’w defnyddio, mae’n rhaid i’r rhain fod ar wahân i’r rhannau y caniateir i blant a phobl ifanc fynd iddynt.

13.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni’r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau priodol / amodau’r drwydded gynnwys materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr eir i’r afael ag unrhyw risgiau i blant a phobl ddiamddiffyn yn sgil Gamblo a nodwyd mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o’r polisi hwn;
- Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV);
- Goruchwylio mynedfeydd / rhannau lle ceir peiriannau;
- Gwahanu rhannau yn bendant;
- Lleoliad y fynedfa;
- Hysbysiadau / arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunan-eithrio;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare.

## 14. Safleoedd betio

14.1 **Peiriannau Betio** – Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried maint yr adeilad, nifer y cownteri sydd ar gael ar gyfer trafodion person i berson, a gallu’r staff i fonitro’r defnydd a wneir o beiriannau gan blant a phobl ifanc (mae’n drosedd i bobl dan 18 oed fetio) neu gan bobl ddiamddiffyn, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau’r peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig. Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ymgeiswyr ddangos bod mesurau priodol i ofalu na fydd plant yn cael defnyddio peiriannau o'r fath.

14.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni’r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau priodol / amodau’r drwydded gynnwys materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr eir i’r afael ag unrhyw risgiau i blant a phobl ddiamddiffyn yn sgil Gamblo a nodwyd mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o’r polisi hwn;
- Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV);
- Goruchwylio mynedfeydd / rhannau lle ceir peiriannau;
- Gwahanu rhannau yn bendant;
- Lleoliad y fynedfa;

- Hysbysiadau / arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunan-eithrio;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare.

14.3 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan rai cwmnïau betio nifer o safleoedd o fewn ei ardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion ynghylch cydymffurfio yn cael eu cydnabod a'u datrys cyn gynted â phosibl, gofynnir i weithredwyr roi enw un pwynt cyswllt i'r Awdurdod, a fydd yn unigolyn uwch, ac y bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag ef/hi gyntaf pe bai unrhyw ymholiadau neu faterion ynghylch cydymffurfio yn codi.

## 15. Traciau

15.1 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y gall traciau fod ag un neu ragor o drwyddedau safle, ar yr amod bod pob trwydded yn gysylltiedig â rhan benodol o'r trac. Yn unol ag Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yr effaith yn benodol ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag iddynt gael eu niweidio, neu i eraill gamfanteisio arnynt, yn sgil Gamblo) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle yn eglur a bod plant yn cael eu gwahardd o rannau lle bydd Gamblo na chânt fynd iddynt.

15.2 Gan hynny, bydd yr awdurdod hwn yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded safle ddangos bod mesurau priodol i ofalu nad yw plant yn cael mynediad i gyfleusterau Gamblo i oedolion yn unig.

15.3 Nodir y bydd modd i blant a phobl ifanc fynd i rannau o'r trac lle darperir cyfleusterau betio ar ddiwrnodau pan fydd rasys cŵn a/neu rasys ceffylau'n digwydd, ond eu bod yn dal i gael eu hatal rhag mynd i rannau lle ceir peiriannau Gamblo (ac eithrio peiriannau categori D).

15.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, gall mesurau priodol / amodau'r drwydded gynnwys materion fel:

- Cynlluniau prawf oedran, megis her 21 neu 25;
- Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV);
- Goruchwylio mynedfeydd / rhannau lle ceir peiriannau;
- Gwahanu rhannau yn bendant;
- Lleoliad y fynedfa;
- Hysbysiadau / arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunan-eithrio
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare.

Nid yw’r rhestr hon yn orfodol nac yn gynhwysfawr; mae'n rhoi enghreifftiau o'r math o fesurau yn unig.

15.5 **Peiriannau Gamblo** - Lle bo’r ymgeisydd yn meddu ar drwydded weithredu betio pŵl a’i fod yn mynd i ddefnyddio’r hawl i gael pedwar peiriant Gamblo, dylai’r peiriannau (ac eithrio peiriannau categori D) fod wedi’u lleoli mewn rhannau y mae plant wedi’u gwahardd rhag mynd iddynt.

15.6 **Peiriannau Betio** – Yn ôl Rhan 6 o Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried maint yr adeilad a gallu’r staff i fonitro’r defnydd o’r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae’n drosedd i bobl dan 18 oed fetio) neu gan bobl ddiamddiffyn, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau’r peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig.

15.7 **Amod arddangos rheolau** – Yn ei Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol, mae’r Comisiwn Gamblo wedi cynghori “ ... y dylai awdurdodau trwyddedu gysylltu amod wrth drwyddedau safle traciau sy’n ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y trac ofalu bod y rheolau yn cael eu harddangos yn amlwg yn y rhannau lle ceir betio, neu gerllaw, neu gymryd camau eraill i ofalu eu bod ar gael i’r cyhoedd. Er enghraifft, gellid argraffu’r rheolau ar y cerdyn rasio neu eu darparu ar ffurf taflen yn swyddfa’r trac.”

15.8 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn cydymffurfio â'r canllaw hwn, fel rhan o'u cais.

15.9 **Ceisiadau a chynlluniau**
Mae’r Ddeddf Gamblo (adran 51) yn mynnu bod ymgeiswyr yn cyflwyno cynlluniau o’r safle gyda’u cais, er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdod trwyddedu y wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw’r safle yn addas ar gyfer Gamblo. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn i’r awdurdod trwyddedu gynllunio gweithgarwch archwilio safleoedd yn y dyfodol. (Gweler yr Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, paragraff 20.43).

15.10 **Cynlluniau** – Disgwylir i ymgeiswyr ddarparu cynllun o'r safle ar raddfa 1:100 oni bai bod yr Awdurdod wedi cytuno'n ysgrifenedig i dderbyn cynllun ar raddfa arall gan yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i'r cynllun ddangos:

- Ffin gyfan y safle, a holl adeiladau ac adeiladwaith y safle.
- Lleoliad mynedfeydd ac allanfeydd y safle.
- Y rhannau a ddefnyddir ar gyfer Gamblo, boed hynny'n barhaol neu dros dro.
- Unrhyw rannau y gwaherddir plant rhag mynd iddynt neu y cyfyngir ar fynediad plant iddynt.
- Lleoliad unrhyw rybuddion neu hysbysiadau.
- Lleoliad cyfleusterau cyhoeddus.
- Lleoliad unrhyw rannau Gamblo yn y safle y mae hawlenni neu drwyddedau ar wahân ar eu cyfer.

- Gall y cynllun gynnwys eglurhad sy'n dynodi'r gwahanol elfennau a nodir uchod.

15.11 Mae’r awdurdod trwyddedu hwn o'r farn y byddai'n well i’r holl safleoedd hunan-gynhwysol a weithredir ar y trac gan weithredwyr betio allanol, fod â thrwyddedau safle ar wahân i ofalu ei bod yn eglur beth fydd cyfrifoldebau gwahanol gweithredwr y trac a’r gweithredwr betio allanol sy’n rhedeg uned hunan-gynhwysol ar y safle.

15.12 Mae’r awdurdod hwn yn sylweddoli ei bod yn anodd diffinio union leoliad mannau betio ar draciau weithiau. Nid oes angen dangos yr union leoliad lle darperir cyfleusterau betio ar gynlluniau traciau, yn sgil y ffaith y caniateir i fetio ddigwydd yn unrhyw le ar y safle ac oherwydd yr anawsterau sy’n gysylltiedig â nodi’r union leoliadau ar gyfer rhai mathau o draciau. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth fel y gall yr awdurdod hwn ei fodloni ei hun fod y cynllun yn nodi’r prif fannau lle gallai betio ddigwydd. Ar gyfer caeau rasio yn benodol, mae’n rhaid dangos unrhyw fannau betio sy’n destun y “rheol pum gwaith” (a elwir yn gylchoedd betio yn gyffredin) ar y cynllun. (Gweler yr Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, paragraff 20.46).

## 16. Ffeiriau Teithiol

16.1 Pan ddarperir peiriannau categori D a / neu Gamblo cyfle cyfartal am wobrau heb hawlen mewn ffeiriau teithiol, cyfrifoldeb yr awdurdod trwyddedu hwn fydd penderfynu a fodlonir y gofyn statudol nad yw’r cyfleusterau Gamblo’n fwy na difyrrwch atodol yn y ffair.

16.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ystyried a yw’r ymgeisydd yn bodloni’r diffiniad statudol o ffair deithiol.

16.3 Nodwyd mai fesul blwyddyn galendr y mae'r cyfnod statudol hwyaf, sef 27 niwrnod, ar gyfer cynnal ffair ar y tir, a'i fod yn berthnasol i’r darn o dir y cynhelir y ffeiriau arno heb ystyried ai'r un ffair neu ffeiriau gwahanol fydd yn meddiannu’r tir. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos i sicrhau bod y tir sy’n croesi ein ffiniau’n cael ei fonitro er mwyn peidio â thorri'r terfynau statudol.

## 17. Datganiadau Amodol

17.1 Efallai y bydd datblygwyr yn dymuno cyflwyno cais i’r awdurdod hwn am ddatganiad amodol cyn cychwyn contract i brynu neu lesio eiddo neu dir, er mwyn barnu a yw’n werth bwrw ymlaen â datblygiad yng ngoleuni’r angen i gael trwydded safle. Nid oes angen i’r ymgeisydd feddu ar drwydded weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad amodol.

17.2 Mae darpariaeth yn adran 204 o’r Ddeddf Gamblo i berson gyflwyno cais i’r awdurdod trwyddedu am ddatganiad amodol mewn perthynas â safle y mae ef neu hi yn:

- disgwyl iddo gael ei adeiladu;
- disgwyl iddo gael ei newid; neu’n
- disgwyl cael hawl i’w feddiannu.

17.3 Mae’r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad amodol yr un peth â’r broses ar gyfer cais am drwydded safle. Mae gorfodaeth ar yr ymgeisydd i roi rhybudd o’r cais yn yr un ffordd ag wrth wneud cais am drwydded safle. Gall awdurdodau sydd â chyfrifoldeb a’r rheiny yr effeithir arnynt wneud sylwadau ac mae hawliau apelio.

17.4 Yn wahanol i’r cais am drwydded safle, nid oes yn rhaid i’r ymgeisydd feddu ar drwydded weithredu, neu fod wedi gwneud cais am drwydded o’r fath, gan y Comisiwn Gamblo (ac eithrio yn achos trac) ac nid oes hawl ganddo i feddiannu’r safle y gwneir cais amodol mewn perthynas ag ef.

17.5 Yna, gall deiliad datganiad amodol wneud cais am drwydded safle unwaith y bydd y safle wedi’i adeiladu, ei newid neu’i gaffael. Bydd yr awdurdod trwyddedu wedi’i gyfyngu o ran y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu ynghylch y cais am drwydded safle, ac o ran y sylwadau a wneir ynghylch ceisiadau am drwyddedau safle ar ôl caniatáu datganiad amodol, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol neu’r rheiny yr effeithir arnynt oni bai:

- eu bod yn ymwneud â materion na ellir bod wedi rhoi sylw iddynt adeg cam y datganiad amodol, neu
- eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau’r ymgeisydd.

17.6 Yn ogystal, ni all yr awdurdod wrthod y drwydded safle (na'i chaniatáu dan delerau sy'n wahanol i’r rheiny a gysylltwyd wrth y datganiad amodol) oni bai ei fod yn cyfeirio at faterion:

- nad oedd modd i wrthwynebwyr eu codi adeg cam trafod datganiad amodol;
- sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau’r gweithredwr; neu
- lle nad yw’r safle wedi’i adeiladu yn unol â’r cynllun a gyflwynwyd gyda’r cais. Mae’n rhaid i hwn fod yn newid sylweddol i’r cynllun ac mae’r awdurdod trwyddedu hwn yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda’r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

## 18. Adolygiadau:

18.1 Gall y rheiny yr effeithir arnynt neu'r awdurdodau sydd â chyfrifoldeb wneud cais am adolygu trwydded safle; fodd bynnag, yr awdurdod trwyddedu fydd yn penderfynu a gaiff yr adolygiad ei gynnal ai peidio. Bydd yn gwneud hyn drwy bennu a yw’r cais am yr adolygiad yn berthnasol i’r materion a restrir isod;

- yn unol ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;

- yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo;
- yn rhesymol gyson â’r amcanion trwyddedu;  ac
- yn unol â datganiad o egwyddorion yr awdurdod.

18.2 Bydd yr awdurdod hefyd yn ystyried a yw’r cais am yr adolygiad yn ddisylwedd, yn peri poendod, yn sicr o beidio ag achosi i’r awdurdod hwn ddymuno newid/diddymu/atal y drwydded, neu ai'r un sylwadau neu geisiadau am adolygiad ydynt i raddau helaeth â'r rheiny a gyflwynwyd yn flaenorol.

18.3 Hefyd, gall yr awdurdod trwyddedu gychwyn adolygu trwydded safle benodol, neu ddosbarth penodol o drwyddedau safle, ar sail unrhyw reswm a dybia'n briodol.

18.4 Unwaith y bydd yr awdurdod trwyddedu wedi derbyn cais dilys am adolygiad, gall awdurdodau sydd â chyfrifoldeb a’r rheiny yr effeithir arnynt wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 diwrnod. Bydd y cyfnod hwn yn dechrau 7 diwrnod ar ôl i’r cais gael ei dderbyn gan yr awdurdod trwyddedu, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o’r cais o fewn 7 diwrnod i’w dderbyn.

18.5 Mae’n rhaid i’r awdurdod trwyddedu gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl ar ôl i’r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwneud sylwadau ddod i ben.

18.6 Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai’r awdurdod trwyddedu gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â’r drwydded. Os gellir cyfiawnhau cymryd camau, mae’r opsiynau canlynol ar gael i’r awdurdod trwyddedu:-
(a) ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod trwyddedu a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu;
(b) eithrio amod diofyn a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio eithriad o’r fath;
(c) atal y drwydded safle am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis; a
(ch) dirymu’r drwydded safle.

18.7 Wrth benderfynu pa gamau, os oes rhai, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, mae’n rhaid i’r awdurdod trwyddedu roi ystyriaeth i’r egwyddorion a nodir yn adran 153 o’r Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

18.8 Yn benodol, gall yr awdurdod trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded safle oherwydd nad yw deiliad trwydded safle wedi darparu cyfleusterau ar gyfer Gamblo yn y safle. Mae hyn i atal pobl rhag gwneud cais am drwydded mewn modd tybiannol heb fwriad i’w defnyddio.

18.9 Unwaith y bydd yr adolygiad wedi’i gwblhau, mae’n rhaid i’r awdurdod trwyddedu hysbysu’r canlynol ynghylch ei benderfyniad cyn gynted â phosibl:
- deiliad y drwydded
- y person a wnaeth y cais am adolygiad (os oes un)
- y Comisiwn
- unrhyw berson a wnaeth sylwadau
- prif swyddog yr heddlu neu’r prif gwnstabl; a
- Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

## 19. Asesiadau Risg

19.1 Mae gofyn bod ymgeiswyr newydd, a deiliaid trwydded safle presennol sydd am amrywio trwydded, yn darparu'r cyfryw asesiadau risg. Mae'r Amodau Trwyddedu a'r Côd Ymarfer a gyflwynwyd gan y Comisiwn Gamblo (y Côd) yn gofyn bod holl weithredwyr Canolfannau Gamblo i Oedolion, Safleoedd Bingo, Canolfannau Adloniant Teulu, Siopau Betio a chyfryngwyr betio o hirbell yn asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu, ac yn gosod polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

19.2 O dan y côd, o 6ed Ebrill 2016 mae'n ofynnol i Weithredwyr ddarparu'r asesiad risg i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais naill ai am drwydded safle newydd neu am amrywio trwydded safle, neu fel arall ar gais, a bydd hynny'n rhan o drefniadau arolygu'r Awdurdod, a gellir gofyn amdanynt pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

19.3 Caiff gweithredwyr eu cynghori'n gryf i sicrhau bod copi o asesiad risg cyfredol y safle yn cael ei gadw ar y safle ochr yn ochr â dogfen drwydded y safle a'i bod ar gael i staff.

19.4 Mae'r côd yn gofyn bod yr Awdurdod yn nodi, yn ei ddatganiad polisi, y materion mae disgwyl i'r gweithredydd roi sylw iddynt yn yr asesiad risg, ac mae'r Awdurdod hwn yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan weithredwyr wrth lunio'u hasesiad risg:

- Gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio ac achosion o Gamblo o dan oed
- Tueddiadau Gamblo a allai adlewyrchu taliadau budd-dal a diwrnodau talu
- Trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau Gamblo
- Y lleoliad trefol, megis agosrwydd i ysgolion, amgylchedd masnachol, ffactorau sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n mynd heibio
- Yr amrywiaeth o gyfleusterau sydd yn ymyl y safle trwyddedig, megis safleoedd Gamblo eraill, banciau, swyddfeydd post, a chyfleusterau lluniaeth ac adloniant
- Problemau hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n deillio o bobl yn yfed ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gweithgareddau delio mewn cyffuriau ac ati.

19.5 Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan Weithredwyr wrth lunio'u hasesiad risg.

Materion cysylltiedig â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys;

- Sefydliadau, mannau neu ardaloedd lle dylid disgwyl i blant a phobl ifanc fod yn bresennol, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, mannau chwarae a lleoliadau adloniant megis alïau bowlio, sinemâu ac ati

- Unrhyw safleoedd lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall y denir plant iddo
- Mannau lle mae tuedd i bobl ifanc ymddwyn yn wrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti/tagio, yfed o dan oed, ac ati
- Achosion a gofnodwyd o bobl o dan oed yn ceisio Gamblo.

19.6 Materion yn ymwneud ag oedolion diamddiffyn, gan gynnwys;

- Gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio ac achosion o Gamblo o dan oed
- Tueddiadau Gamblo a allai fynd law yn llaw â dyddiadau taliadau ariannol, fel diwrnodau talu neu daliadau budd-dal
- Trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau Gamblo
- Agosrwydd safleoedd a allai gael eu mynychu gan bobl ddiamddiffyn, e.e. ysbytai, cartrefi gofal preswyl, addoldai, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau cyflyrau caeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gallai pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati.

19.7 Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, a rhaid rhoi sylw i ffactorau perthnasol eraill a nodir, nad ydynt yn y rhestr hon.

# RHAN C
# Hawlenni / Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro a Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol

## 20. Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Canolfannau Adloniant Teulu heb eu trwyddedu. (Datganiad o Egwyddorion o ran Hawlenni – Atodlen 10, paragraff 7)

20.1 Pan na fydd safle yn ddeiliad trwydded safle ond ei fod yn dymuno darparu peiriannau Gamblo, gall wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am y drwydded hon. Dylid nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos y caiff yr adeilad ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben darparu peiriannau Gamblo i'w defnyddio (Adran 238 y Ddeddf).

20.2 Gellir caniatáu cais am hawlen os bydd yr awdurdod trwyddedu'n fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teulu heb ei thrwyddedu ac os ymgynghorwyd â Phrif Swyddog yr Heddlu ynghylch y cais yn unig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr:

- Ddangos eu bod yn llwyr ddeall beth yw'r uchafsymiau arian y gellir eu mentro a beth yw'r gwobrau Gamblo mwyaf a ganiateir mewn Canolfannau Adloniant Teulu (heb eu trwyddedu);
- Dangos nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rheiny a nodir yn Atodlen 7 y Ddeddf); a
- Dangos bod staff wedi cael eu hyfforddi i ddeall yn llwyr beth yw'r uchafsymiau arian y gellir eu mentro a beth yw'r gwobrau Gamblo mwyaf.

- Dangos dealltwriaeth o’r materion diogelu y tynnir sylw atynt ar dudalen 14 o’r polisi hwn.
- Darparu gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu allbrint Cais gan Wrthrych y Data o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn dwyn dyddiad sydd o fewn un mis calendr i ddyddiad cyflwyno’r cais (oni bai fod gan yr ymgeisydd drwydded Gweithredwr gyfredol a roddwyd gan y Comisiwn Gamblo)
- Darparu cynlluniau o’r safle sy’n cydymffurfio â gofynion paragraff 15.9 – 15.10 y polisi hwn ac sy’n dangos lleoliadau arfaethedig y peiriannau Gamblo a lleoliadau’r staff sy’n rheoli ac yn goruchwylio’r ganolfan.

20.3 Wrth ystyried unrhyw euogfarnau a ddatgelwyd mewn cais bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried natur a pherthnasedd y drosedd, pa mor hir yn ôl y digwyddodd ac unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol. Bydd y cais yn amodol ar delerau’r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac ni cheir cyfeirio at euogfarnau “sydd wedi darfod” wrth ystyried y cais am hawlen. Bydd y broses ymgeisio yn cyfeirio’n benodol at y Troseddau Perthnasol a restrir yn Atodlen 7 Deddf Gamblo 2005.

20.4 Dylid nodi na all awdurdod trwyddedu gysylltu amodau wrth y math hwn o hawlen.

20.5 **Datganiad o Egwyddorion** – Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i’r ymgeisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau’n bodoli i amddiffyn plant rhag cael eu niweidio. Yn y cyd-destun hwn, nid yw niwed wedi ei gyfyngu i niwed yn sgil Gamblo, ond mae’n cynnwys ystyriaethau ehangach o ran amddiffyn plant.

20.6 Bydd effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o’r fath yn cael ei ystyried yn ôl eu haeddiant unigol, fodd bynnag, gallant gynnwys mesurau / hyfforddiant priodol i staff ynghylch plant ysgol y tybir eu bod yn chwarae triwant yn yr adeilad, fetio staff / mesurau / hyfforddiant priodol ynghylch sut y byddai staff yn delio â phlant ifanc iawn nad ydynt yn cael eu goruchwylio yn yr adeilad, neu blant y tybir eu bod yn achosi problemau yn / o gwmpas yr adeilad. Yn ôl Arweiniad y Comisiwn Gamblo, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl hefyd bod ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth lawn o’r uchafsymiau arian y gellir eu mentro a’r gwobrau Gamblo mwyaf a ganiateir mewn Canolfannau Adloniant Teulu heb eu trwyddedu; nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rheiny a nodir yn Atodlen 7 y Ddeddf); a bod staff wedi cael eu hyfforddi i ddeall yn llwyr yr uchafsymiau arian y gellir eu mentro a’r gwobrau Gamblo mwyaf.

20.7 Caiff ymgeiswyr eu cynghori i gyfeirio at y cyngor Diogelu a amlinellir ar dudalen 13 y Polisi hwn neu gysylltu â’r Awdurdodau Cyfrifol perthnasol i gael arweiniad pellach.

## 21. Hawlenni peiriannau Gamblo mewn safleoedd sydd â thrwydded (Alcohol)

21.1 Yn seiliedig ar brofiad ymarfer prawf prynu a gynhaliwyd mewn safleoedd trwyddedig yn 2019 a arweiniodd at gyfradd fethu o 100%, cynghorir deiliaid trwydded eiddo i adolygu ac i wella'u hyfforddiant staff a'u goruchwyliaeth o beiriannau Gamblo er mwyn amddiffyn plant rhag cael niwed yn sgil gamblo.

**Peiriannau Gamblo – Hawl Awtomatig**

21.2 Yn y Ddeddf, mae darpariaeth i safle sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed yn y safle gael dau beiriant Gamblo categori C a/neu D yn awtomatig. Y cyfan sy'n rhaid i'r safle ei wneud yw hysbysu'r awdurdod trwyddedu a thalu'r ffi a bennwyd.

21.3 Gall yr awdurdod trwyddedu ddileu'r awdurdod awtomatig mewn perthynas â safle penodol:

- os nad yw darparu'r peiriannau yn rhesymol gyson â bodloni'r amcanion trwyddedu;
- os bu Gamblo yn y safle a oedd yn torri amod adran 282 y Ddeddf Gamblo (h.y. yr anfonwyd hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod trwyddedu, y talwyd ffi, ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw gôd ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoli a gweithredu'r peiriant);
- os defnyddir y safle'n bennaf at ddiben Gamblo; neu
- os cyflawnwyd yn y safle drosedd dan y Ddeddf Gamblo.

21.4 **Hawlen Peiriant Gamblo: 3 neu fwy o beiriannau – (atodlen 13 paragraff 4(1))**
Os yw safle am gael mwy na 2 beiriant, mae angen iddo wneud cais am hawlen ac mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y cais hwnnw ar sail yr amcanion trwyddedu, dan Ddeddf 2005, unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo a gyhoeddwyd dan Adran 25 Deddf Gamblo 2005, ac "unrhyw faterion y maent yn tybio eu bod yn berthnasol". Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried y bydd "unrhyw faterion" yn cael eu penderfynu ar sail yr achos unigol, ond yn gyffredinol rhoddir ystyriaeth i'r angen i amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn rhag i gamblo eu niweidio neu iddo gamfanteisio arnynt, a bydd disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau na fydd gan bobl dan 18 oed fynediad i'r peiriannau Gamblo i oedolion yn unig. Gall y mesurau hyn gynnwys gosod y peiriannau i oedolion o fewn golwg i'r bar, neu o fewn golwg i'r staff a fydd yn monitro nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio gan bobl dan 18 oed. Gallai hysbysiadau ac arwyddion fod yn ddefnyddiol hefyd. O ran diogelu pobl ddiamddiffyn, gall ymgeiswyr ystyried darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare.

Mae'n ofynnol felly i ymgeiswyr am Hawlenni Peiriannau Gamblo ar Safleoedd Trwyddedig ddarparu'r wybodaeth ganlynol ochr yn ochr â'u cais:-

1. Cynllun o'r safle yn unol â pharagraff 15.10 o'r polisi hwn, lle byddant yn dangos lleoliad arfaethedig pob peiriant gamblo ynghyd â manylion am leoliadau'r staff goruchwyliol yn ogystal â Hysbysiadau ac arwyddion.

2. Gwybodaeth ynghylch natur y safle gan gynnwys mynediad i'r safle gan bobl o dan 18 oed.
3. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos y bydd y gweithgarwch gamblo a fwriedir ar gyfer y safle yn achlysurol / ategol i'r gweithgareddau trwyddedadwy eraill ar y safle.

21.5 Cydnabyddir y gallai rhai safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol wneud cais am drwydded safle ar gyfer rhannau trwyddedig lle nad ydynt yn gwerthu alcohol. Mwy na thebyg y byddai'n rhaid i gais o'r fath fod yn gais am drwydded safle ar gyfer Canolfan Gamblo i Oedolion, ac yr ymdrinnir â'r cais yn y modd hwnnw.

21.6 Dylid nodi y gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu caniatáu'r cais ond am lai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau i'r hyn y gwnaed cais ar eu cyfer. Ni ellir cysylltu amodau (ar wahân i'r rhain).

21.7 Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i ddeiliad hawlen gydymffurfio ag unrhyw Gôd Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoli a gweithredu peiriant.

21.8 Gall yr Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu cyn penderfynu ynghylch unrhyw geisiadau o'r fath.

## 22. Hawlenni Gamblo am Wobrau - (Datganiad o Egwyddorion ar Hawlenni - Atodlen 14 paragraff 8 (3)).

22.1 Mae Deddf Gamblo 2005 yn nodi y gall awdurdod trwyddedu "baratoi datganiad o egwyddorion y mae'n bwriadu eu defnyddio wrth gyflawni ei swyddogaethau dan yr Atodlen hon" a "allai'n benodol bennu materion y mae'r awdurdod trwyddedu'n bwriadu eu hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd yr ymgeisydd i gael hawlen".

22.2 **Datganiad o Egwyddorion** - Dylai ymgeiswyr bennu'r mathau o Gamblo y maent yn bwriadu eu cynnig a dylent allu dangos:

- eu bod yn deall y cyfyngiadau ar arian a fentrir ac ar wobrau fel y'u pennwyd yn y Rheoliadau;
- a bod yr Gamblo a gynigir yn unol â'r gyfraith.
- Polisïau clir sy'n nodi'r camau a gymerir i amddiffyn plant rhag niwed

22.3 Wrth benderfynu ar gais am yr hawlen hon, nid oes yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu, ond mae'n rhaid iddo ystyried unrhyw arweiniad gan y Comisiwn Gamblo (Deddf Gamblo 2005, Atodlen 14, paragraff 8(3)).

22.4 Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad yr hawlen gydymffurfio â hwy, ond na all yr awdurdod trwyddedu gysylltu amodau wrthynt. Mae amodau'r Ddeddf fel a ganlyn:

- mae'n rhaid cydymffurfio â'r cyfyngiadau ar ffïoedd cymryd rhan fel y'u pennwyd yn y rheoliadau;
- mae'n rhaid i'r holl gyfleoedd i gymryd rhan yn yr Gamblo gael eu dyrannu yn y safle y mae'r Gamblo'n digwydd ynddo ac ar un diwrnod; mae'n rhaid chwarae'r gêm a'i chwblhau ar yr un diwrnod ag y mae'r cyfleoedd yn cael eu dyrannu; ac mae'n rhaid cyhoeddi canlyniad y gêm yn y safle ar y diwrnod y mae'n cael ei chwarae;
- mae'n rhaid i'r wobr am y gêm beidio â bod yn fwy na'r swm a bennwyd yn y rheoliadau (os yw'n wobr ariannol), neu'r gwerth a bennwyd (os nad yw'n wobr ariannol); ac
- mae'n rhaid na fydd cymryd rhan yn y gêm yn rhoi hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw Gamblo arall.

## 23. Hawlenni Gamblo mewn Clybiau a Hawlenni ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Clybiau

23.1 Yn seiliedig ar brofiad ymarfer prawf prynu a gynhaliwyd mewn safleoedd trwyddedig yn 2019 a arweiniodd at gyfradd fethu o 100% yn y safleoedd hynny, cynghorir clybiau aelodau yn gryf i adolygu ac i wella'u hyfforddiant staff a'u goruchwyliaeth o beiriannau Gamblo er mwyn amddiffyn plant rhag cael niwed yn sgil gamblo.

23.2 Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Hawlen Gamblo ar gyfer Clwb. Bydd yr Hawlen Gamblo ar gyfer Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau Gamblo (3 pheiriant categori B, C neu D), Gamblo cyfle cyfartal a gemau Gamblo fel y pennir mewn rheoliadau sydd i ddod.

Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr - a Chlybiau Masnachol - wneud cais am Hawlen ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Clwb. Bydd Hawlen ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau Gamblo (3 pheiriant categori B, C neu D). DS Ni chaiff clybiau masnachol osod peiriannau Gamblo categori B3A sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

23.3 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn nodi'r datganiad canlynol yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo:

25.44 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y clwb yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf o ran cael hawlen Gamblo ar gyfer clwb. Wrth wneud hyn bydd yn ystyried nifer o faterion a ddisgrifir yn adrannau 25.47-25.49 o Arweiniad y Comisiwn Gamblo. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb,

pa mor aml y mae Gamblo'n digwydd a sicrhau bod gan glwb fwy na 25 o aelodau.

Mae'n rhaid i'r clwb gael ei gynnal yn 'gyfan gwbl neu'n bennaf' at ddibenion eraill heblaw Gamblo, oni bai bod yr Gamblo'n cael ei ganiatáu o dan reoliadau eraill. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn berthnasol i glybiau *bridge* a chwist.

23.4 Mae Arweiniad y Comisiwn hefyd yn nodi y gall "awdurdodau trwyddedu wrthod cais am y rhesymau canlynol yn unig:

(a) nid yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer clwb aelodau, clwb masnachol na sefydliad lles glowyr ac felly nid oes ganddo hawl i gael y math o hawlen y mae wedi gwneud cais ar ei chyfer;
(b) defnyddir safle'r ymgeisydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
(c) mae'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd dan y Ddeddf neu wedi torri amodau hawlen wrth iddo ddarparu cyfleusterau Gamblo;
(d) mae hawlen a ddaliwyd gan yr ymgeisydd wedi cael ei diddymu yn ystod y deng mlynedd diwethaf; neu
(e) cyflwynwyd gwrthwynebiad gan y Comisiwn neu'r heddlu".

23.5 Dan y Ddeddf, mae proses 'garlam' ar gael hefyd ar gyfer safleoedd sy'n ddeiliaid Tystysgrif Safle Clwb dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12 paragraff 10). Fel y mae Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi: "Dan y broses 'garlam' nid oes cyfle i'r Comisiwn na'r heddlu gyflwyno gwrthwynebiad, ac mae'r rhesymau y gall awdurdod eu defnyddio dros wrthod caniatáu hawlen wedi eu lleihau". Dan y broses, y canlynol yw'r rhesymau y gellir eu defnyddio dros wrthod cais:

(a) mae'r clwb wedi ei sefydlu'n bennaf ar gyfer gamblo, ar wahân i'r gamblo a bennwyd dan atodlen 12;
(b) yn ogystal â'r gamblo a bennir, mae'r ymgeisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo arall; neu
(c) diddymwyd hawlen Gamblo ar gyfer clwb neu hawlen ar gyfer peiriannau gamblo mewn clwb a ganiatawyd i'r ymgeisydd yn ystod y deng mlynedd diwethaf."

23.6 Mae amodau statudol sy'n berthnasol i hawlenni gamblo ar gyfer clybiau, sef na fydd unrhyw blentyn yn defnyddio peiriant categori B neu C yn y safle a bod y deiliad yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol mewn côd ymarfer ynghylch lleoli a gweithredu peiriannau Gamblo.

23.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i fodloni'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, dylai mesurau priodol / amodau'r drwydded gynnwys materion fel:

- Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis her 21 neu 25;
- Sut yr eir i'r afael ag unrhyw risgiau i blant a phobl ddiamddiffyn yn sgil gamblo;
- Systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV);

- Goruchwylio mynedfeydd / rhannau lle ceir peiriannau;
- Gwahanu rhannau yn bendant;
- Lleoliad y fynedfa;
- Hysbysiadau / arwyddion;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau hunan-eithrio;
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinell gymorth sefydliadau fel GamCare.

## 24. Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro

24.1 Mae Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro yn caniatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo lle nad oes trwydded safle ond lle mae gweithredwr gamblo yn dymuno defnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau gamblo. Ymhlith y safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad am Ddefnydd Dros Dro, yn ôl y Comisiwn Gamblo, y mae gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

24.2 Gall yr awdurdod trwyddedu ganiatáu Hysbysiad am Ddefnydd Dros Dro i berson neu gwmni sy'n meddu ar drwydded weithredu berthnasol yn unig, h.y. trwydded i weithredu casino heb fod o bell.

24.3 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i benderfynu pa fath o gamblo y gellir ei awdurdodi gan Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro, ac adeg ysgrifennu'r Datganiad hwn, mae'r rheoliadau perthnasol (Offeryn Statudol rhif 3157: Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro) 2007) yn nodi na ellir defnyddio Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro ond i ganiatáu darparu cyfleusterau neu Gamblo cyfle cyfartal, lle bwriedir i'r gamblo gynhyrchu un enillydd, sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer.

24.4 Mae nifer o gyfyngiadau statudol mewn perthynas â Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro. Trafodir ystyr "safle" yn Rhan 8 o'r Ddeddf yn Rhan 7 o Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu. Fel yn achos "safle", mae'r diffiniad o "set o safleoedd" yn gwestiwn o ffaith yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf, diffinnir bod "safle" yn cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried a yw lle yn cwympo o fewn y diffiniad o "set o safleoedd", bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried, ymhlith pethau eraill, perchenogaeth/meddiannaeth a rheolaeth y safle.

24.5 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl gwrthwynebu hysbysiadau lle mae'n ymddangos mai eu heffaith fyddai caniatáu Gamblo rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio yn un o set o safleoedd, fel yr argymhellir yn Arweiniad y Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

## 25. Hysbysiadau am Ddefnydd Achlysurol

25.1 Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr awdurdod trwyddedu o ran yr hysbysiadau hyn ar wahân i sicrhau na ddefnyddir nhw am gyfnod hwy na'r terfyn statudol o 8 niwrnod mewn blwyddyn galendr. Er hynny, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y diffiniad o 'drac' a hefyd a ganiateir i'r ymgeisydd ddefnyddio'r hysbysiad. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn sicrhau na fydd yr un lleoliad yn cael mwy nag 8 Hysbysiad am Ddefnydd Achlysurol mewn blwyddyn galendr.

## 26. Loterïau Cymdeithasau Bychain

26.1 Bydd yr awdurdod hwn yn gorfodi'i gyfrifoldebau dros loterïau cymdeithasau bychain ar sail risg. Mae'r awdurdod hwn o'r farn y gallai'r rhestr ganlynol, nad yw'n hollgynhwysol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- Dychwelebau a gyflwynir yn hwyr (mae'n rhaid cyflwyno dychwelebau cyn pen tri mis ar ôl dyddiad cynnal y loteri)
- Cyflwyno dychwelebau anghyflawn neu anghywir
- Peidio â chydymffurfio â'r terfynau ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain

26.2 Caniateir Gamblo anfasnachol os yw'n cael ei gynnal mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel prif weithgaredd neu weithgaredd atodol yn y digwyddiad. Ystyrir bod digwyddiadau'n rhai anfasnachol os na ddefnyddir unrhyw ran o'r derbyniadau er elw neu fudd personol. Gall unigolyn neu unigolion gael budd o'r derbyniadau'r cyfryw ddigwyddiadau os yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu:

- gan neu ar ran elusen neu at ddibenion elusennol
- er mwyn galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol neu i gefnogi'r gweithgareddau hyn .

Dylai elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r awdurdod trwyddedu hwn drwy ffonio 01267 228717 i gael rhagor o gyngor.

**Atodiad A**

**DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU**

| **Y Mater sydd i'w drafod** | **Y Cyngor Llawn** | **Is-bwyllgor** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cymeradwyo'r Polisi Trwyddedu tair blynedd yn derfynol | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Cais am Drwydded Safle | | Pan gafwyd sylwadau ac na thynnwyd hwy'n ôl | Pan na chafwyd sylwadau / y tynnwyd sylwadau yn ôl |
| Cais am Amrywiad yn y Drwydded | | Pan gafwyd sylwadau ac na thynnwyd hwy'n ôl | Pan na chafwyd sylwadau / y tynnwyd sylwadau yn ôl |
| Cais am Drosglwyddo Trwydded | | Pan gafwyd sylwadau oddi wrth y Comisiwn | Pan na chafwyd sylwadau oddi wrth y Comisiwn |
| Cais am Ddatganiad Amodol | | Pan gafwyd sylwadau ac na thynnwyd hwy'n ôl | Pan na chafwyd sylwadau / y tynnwyd sylwadau yn ôl |
| Adolygu Trwydded Safle | | X | |
| Cais am hawlenni Gamblo mewn clwb / peiriannau mewn clwb | | Pan gafwyd gwrthwynebiadau ac na thynnwyd hwy'n ôl | Pan na chafwyd gwrthwynebiadau neu pan dynnwyd hwy'n ôl |
| Diddymu hawlenni Gamblo mewn clwb / peiriannau mewn clwb | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | Pan gafwyd gwrthwynebiadau ac na thynnwyd hwy'n ôl | Pan na chafwyd gwrthwynebiadau neu pan dynnwyd hwy'n ôl |
| Diddymu Hawlen ar gyfer Peiriannau Gamblo mewn Safle Trwyddedig | | | X |
| Ystyried Hysbysiad am Ddefnydd Dros Dro | | | X |
| Penderfynu rhoi Gwrth-hysbysiad mewn perthynas â Hysbysiad am Ddefnydd Dros Dro | | X | |
| Pennu ffïoedd (pan fydd yn briodol) | Cyfarfod Penderfyniadau Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol | | |
| Penderfynu a yw sylw yn amherthnasol, yn wacsaw neu'n flinderus | | | X<br>Mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu |

**DEDDF GAMBLO 2005**

**Y POLISI GAMBLO**

Atodiad B

## Manylion Cyswllt

### Yr Awdurdod Trwyddedu

Yr Adain Drwyddedu
Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE

Rhif ffôn: 01267 234567
Cyfeiriad e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

Y Comisiwn Gamblo
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham
B2 4BP

Rhif ffôn: 0121 230 6500
Cyfeiriad e-bost: info@gamblingcommission.gov.uk
Rhif ffacs: 0121 237 2236

Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC)
Yr Uned Gofrestru Genedlaethol/
The National Registration Unit
Betio a Gamblo/
Betting and Gaming
Portcullis House
21 India Street
Glasgow
G2 4PZ

Rhif ffôn: 03000 516023
E-bost: nrubetting&gaming@hmrc.gsi.gov.uk
Rhif ffacs: 03000 516249

**Yr Awdurdod Cynllunio Perthnasol**

**Naill ai,**

Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir Caerfyrddin
8 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LQ

Rhif ffôn: 01267 224663 / 01267 224882 / 01267 224118
Cyfeiriad e-bost: cynllunio@sirgar.gov.uk

**Neu,**
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn achos safleoedd sydd o fewn ei ardal weinyddol

Y Swyddog Gorfodi
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambria
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

Rhif ffôn: 01874 620431
E-bost: planning.enquiries@breconbeacons.org
Rhif ffacs: 01874 622524

Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE

Rhif ffôn: 0845 6580445
Cyfeiriad e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

Y Swyddog Trwyddedu
Heddlu Dyfed-Powys
Gorsaf yr Heddlu
Heol y Ffowndri
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 2LS

Rhif ffôn: 07484007321 or 101
e-bost: Nichola.Williams1@dyfed-powys.police.uk

Y Rheolwr Sirol
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys Ardal Reoli Sir Gaerfyrddin
Lôn Pisgwydd
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1SP


Rhif ffôn: 0870 6060699
Cyfeiriad e-bost: Mail@Mawwfire.gov.uk
Rhif ffacs: 01267 222382

Pennaeth y Gwasanaethau Plant
Yr Adran Addysg a Phlant
Cyngor Sir Caerfyrddin
Parc Dewi Sant
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 228916
Cyfeiriad e-bost: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk

**Dylai ymgeiswyr am drwyddedau ar gyfer cychod o bob math gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael gwybodaeth ychwanegol.**

**Atodiad C**


Llanybydder
Cynwyl Gaeo
Llandovery
Cilycwm
Cenarth
Llangeler
Llanfihangel-ar-Arth
Llanegwad
Manordeilo and Salem
Llangadog
Cynwyl Elfed
Abergwili
Trelech
Llanboidy
Carmarthen Town North
Carmarthen Town South
Whitland
Llandeilo
Llanddarog
St. Clears
Llandybie
Quarter Bach
Gorslas
Garnant
Llansteffan
Ammanford
Laugharne Township
Llangyndeyrn
Llannon
Tycroes
Kidwelly
Glyn
Trimsaran
Hendy
Swiss Valley
Pembrey
Felinfoel
Dafen
Burry Port
Bigyn
Bynea
Glanymor
CARMARTHEN BAY